Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar Nos Fercher y 9fed o Chwefror 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh

Presennol: Y Cyng. Dawn Wallace (cadeirydd) Y Maer, y Cyng. Chris Parish, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Fran Murphy, y Cyng. Roy Davies, y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Edward Thomas.
Roger Phillips (Clerc y Dref)
Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Dim

Cof 254 / Chwef / 11 Ceisiadau cynllunio i'w penderfynu

E/ 23640 I drawsnewid y Kings Head a'r adeiladau cyffiniol i mewn i 7 uned breswyl.
Sylw : Yn dilyn ymweliad safle gyda'r datblygwr, nid oedd gan y Pwyllgor unrhyw wrthwynebiad, cyhyd â bod yr argymhellion i gadw'r nodweddion hanesyddol yn cael eu cynnal.

Cof 255 / Chwef /11 Penderfyniadau ynghylch Ceisiadau Cynllunio

E/ 24017 Caban arlwyo cludadwy ym Mharc Dinefwr
GWRTHODWYD.

E/24005 Lleoli annedd ar blot cyffiniol 11, Heol Clarence.
RHODDWYD.

Cof 256 / Chwef /11 Doedd dim Ceisiadau Cynllunio a dynnwyd yn ôl

Cof 257 / Chwef / 11 Doedd dim Apeliadau Cynllunio

Cof 258 / Chwef /11 Doedd dim Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

Cof 259 / Chwef / 11 Adroddiad y Swyddog Technegol

Adroddodd y Swyddog Technegol fod Mr Moses wedi gorffen y gwaith plastro yn Neuadd y Sir. Dywedodd Mr Davies hefyd fod y gwaith a wnaed i atal dŵr budr rhag cronni tu allan i'r adeilad yn llwyddiannus.
Byddai Mr Davies yn trefnu cyfarfod gyda swyddogion yr Eglwys mewn perthynas â Chloc yr Eglwys. Byddai'r Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Edward Tomas a'r Cyng. Colin Jenkins yn mynychu.

Cof 260 / Chwef / 11 Llwybrau Troed a Hawliau Tramwy.

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth British Rail mewn perthynas â chodi ffens o amgylch ardal o dir tu ôl i'r orsaf rheilffordd. Byddai hyn yn atal pobl leol rhag cael mynediad at lwybr troed

sy'n arwain at Bont y Brenin. Roedd y Cyngor wedi derbyn llawer o gwynion o ganlyniad i'r cynnig hwn. Erbyn hyn, roedd cyfarfod wedi cael ei drefnu gyda Swyddogion British Rail ar yr 22ain o Chwefror am 12 hanner dydd ym Mhont y Brenin.
Byddai'r Cyng. Edward Thomas, y Cyng Roy Davies a'r Swyddog Technegol yn cynrychioli'r Cyngor Tref. Byddai cynrychiolwyr o'r grŵp Trefi Trawsnewid, y Clwb Pysgota a'r CS Ieuan Jones yn bresennol hefyd. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins y byddai unrhyw sylwadau pellach yn cael eu gohirio nes wedi'r cyrfarfod gyda British Rail, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Richard Wallace.

Cof 261 / Chwef / 11 Canmlwyddiant Pont y Brenin

Cyflwynodd y Cyng. Roy Davies adroddiad cynhwysfawr ar gyfarfod a fynychodd gyda Mr Geoffrey Williams a Gordon Kilby. Roedd wedi derbyn ateb oddi wrth Mr Eirian James, Rheolwr Hawliau Tramwy CSG, a oedd yn gobeithio gwneud cais am grant WREN i Cwm Environmental ar gyfer adnewyddu'r bont. Byddai'r Cyng. Davies yn cwrdd â Mr James ar yr 22ain o Chwefror 2011.
Dyweodd y Cyng. Davies ei fod yn gobeithio trefnu arddangosfa ym mis Medi, fel rhan o'r Dathliadau Canmlwyddiant. Byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Cymuned Dyffryn Cennen yn eu gwahodd i fod yn rhan o'r dathliadau.

Cof 262 / Chwef / 11 Gohebiaeth

1. Sian Williams, Adran Twristiaeth CSG, yn gofyn am wybodaeth am ddigwyddiadau'r Cyngor yn ystod y Gwanwyn a'r haf. Byddai'r Clerc yn anfon ateb.
2. Esyllt Harker ynglŷn â British Rail yn codi ffens o amgylch y llwybr troed. Nodwyd.
3. Arsyllfa Wledig Cymru ynglŷn â Thyfu Bwyd. Byddai'r Maer yn cwblhau'r arolwg.
4. Thirza Swindells ynglŷn â gwahoddiad i ddigwyddiad Gardeners Questiontime y BBC. Nodwyd.
5. Mr Gwilym Hughes, Cadeirydd Ymddiriedolaeth Ddinesig Llandeilo a'r Cylch. Copi o lythyr a anfonwyd i Sainsbury's yn galw am gyfarfod cyhoeddus. Roedd y Clerc eisoes wedi ateb yn cefnogi'r cais.
   Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Clerc hefyd yn ysgrifennu at Sainsbury's i alw am gyfarfod cyhoeddus, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb yn gytun.
   Hefyd, byddai'r Clerc yn ysgrifennu at Gyngor Cymuned Manordeilo a Salem i geisio eu barnau am y datblygiad sy'n arfaethedig.

Cof 263 / Chwef / 11 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972

Daeth y cyfarfod i ben am 8.05yh.